Health and Care Research Wales Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
SuRE – Uned Arbenigol ar Dystiolaeth Adolygu – Specialist Unit for Review Evidence
JBI – The Wales Centre For Evidence Based Care – A JBI Centre of Excellence
Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru – Health and Care Research Wales
Ariennir gan Lywodraeth Cymru – Funded by Welsh Government
Cafcass Cymru

# Adolygiad cyflym o nodweddion a chanlyniadau plant sy'n rhan o achosion cyfraith teulu preifat oherwydd bod y rhieni wedi gwahanu

Tachwedd 2024

Meg Kiseleva, Juliet Hounsome, Judit Csontos, Deborah Edwards, Elizabeth Gillen, Mala Mann, Olivia Gallen, Adrian Edwards, Alison Cooper, Elizabeth Doe, Ruth Lewis

## Cefndir

Mae achosion cyfreithiol preifat sy’n cynnwys plant fel arfer yn cynnwys **anghydfodau rhwng rhieni** sydd:

- wedi gwahanu
- yn anghytuno o ran trefniadau plentyn
- yn gofyn i’r llys benderfynu ble y dylai plentyn fyw a chyda phwy y dylai dreulio amser.

Mae’r plant sydd dan sylw **o bosibl yn agored i niwed**, ac yn aml yn cael **cymorth annigonol trwy bolisi**.

## Y nod

Taflu goleuni ar **les a nodweddion neu ganlyniadau pwysig eraill plant sy'n rhan o achosion cyfreithiol preifat, a nodi anghenion cymorth** y plant hyn sy'n aml yn cael eu hanghofio mewn polisi.

## Sylfaen y Dystiolaeth

Roedd yr adolygiad yn cynnwys llenyddiaeth a gyhoeddwyd rhwng 2001 a 2022.

**25**

Nodwyd 25 o ddogfennau perthnasol a oedd yn adrodd ar 22 o astudiaethau gwahanol, sy'n cynnwys:

- 8 erthygl mewn cyfnodolion academaidd
- 17 adroddiad anacademaidd

**Nod y rhan fwyaf o'r astudiaethau oedd disgrifio nodweddion** plant sy'n rhan o achosion cyfraith teulu preifat.

Cynhaliwyd yr astudiaethau a drafodwyd yn y gwledydd canlynol:

13 x Lloegr a Chymru

7 x Awstralia
1 x Canada
1 x Seland Newydd

## Prif Ganfyddiadau

Yng Nghymru, roedd **iselder a gorbryder yn fwy cyffredin** ymysg plant â hanes o fod yn rhan o achosion cyfreithiol preifat **o'u cymharu â phlant yn y boblogaeth gyffredinol.**

**Iechyd meddwl a lles**
Roedd bron pob astudiaeth a gafodd ei chynnwys yn yr adolygiad yn ymdrin â'r pwnc hwn.

Roedd y llenyddiaeth ryngwladol yn cynnig **adroddiadau ysgrifenedig**, gan ddisgrifio plant â **gorbryder, iselder, dicter, symptomau anhwylder straen wedi trawma ac anhwylderau bwyta, yn ogystal â rhai a oedd yn hunan-niweidio ac yn ceisio lladd eu hunain.**

Nid oedd yn glir a oedd hyn yn gysylltiedig â'r rhieni yn gwahanu, achosion llys, gorchmynion llys neu ffactorau eraill.

Mae meysydd eraill y mae'r adroddiad yn mynd i'r afael â nhw yn cynnwys:

**Mynediad at wasanaethau iechyd meddwl**

**Ymddygiad**

**Datblygiad**

**Cydberthnasau cymdeithasol**

**Dysgu ac addysg**

**Iechyd corfforol**

## Goblygiadau polisi ac ymarfer

Mae angen i faes iechyd y cyhoedd ymateb i anghenion y plant hyn er mwyn

- adnabod plant sy'n agored i niwed
- cynnig cymorth amserol

gan fod llawer o blant sy'n rhan o achosion cyfreithiol preifat **yn profi trallod acíwt.**

## Y camau nesaf

Mae angen ymchwil pellach i ddeall:

- **anghenion cymorth penodol plant sy'n rhan o achosion cyfreithiol preifat** o'u cymharu ag anghenion plant rhieni na ddefnyddiodd y llysoedd wrth wahanu.
- **canlyniadau tymor byr a thymor hir plant sy'n rhan o achosion cyfreithiol preifat**, i ddeall eu hanghenion cymorth a sut y gallai'r rhain newid dros amser.

I gael rhagor o wybodaeth, ac i ddarllen yr **adolygiad cyflym llawn gan gynnwys Ystyriaethau Economaidd, cliciwch yma.**